

Cyngor Cymuned Llandwrog



Cyfarfod	Cyfarfod o'r Cyngor Llawn
Dyddiad	Nos Lun , 19 Rhagfyr 2016
Amser	7.30 yr hwyr
Lleoliad	Neuadd Carmel

Rhaglen

- 1 **Croeso'r Cadeirydd**
- 2 **Ymddiheuriadau ac Absenoldeb Aelodau.**
- 3 **Datgan buddiant neu fuddiant sydd yn rhagfarnu**
- 4 **hDerbyn Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol fel Rhai Cywir (21 Tachwedd 2016)**
- 5 **Materion yn Codi o'r Cofnodion**
 - a) **Cynghorau Lleol – Cyd-weithio**

Adroddiad ar lafar gan yr aelodau oedd yn bresennol yn y cyfarfod diweddara (Rhagfyr 1af 2016)
 - b) **Dyfodol Dyffryn Nantlle**

Adroddiad ar lafar gan yr aelod oedd yn bresennol yn y cyfarfod a gynhauwyd 22 Tachwedd 2016
 - c) **Cwyn yn erbyn y Cyngor i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**

Ymateb yr Ombwdsmon
 - ch **Twmpathau Traffig , Sgwar Carmel**

Diwddariad ar y noson

6 Derbyn Cofnodion Pwyllgor Mynwentydd ac Eiddo a gynhaliwyd 5 Rhagfyr 2016

7 Materion yn Codi o'r Cyfarfod uchod

8 Derbyn Cofnodion Pwyllgor Cyllid a gynhaliwyd 15 Rhagfyr 2016

9 Materion yn Codi o'r Cyfarfod uchod

Gohebiaeth

10 Gohebiaeth gan Trigolion y Fron

11 Un Llais Cymru – Problemau gyda'r Archwiliad Allanol 2015-16

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol gan Luned Evans, Swyddog Datblygu Gogledd Cymru

Hoffwn ddiolch yn fawr iawn i chi am dynnu fy sylw at faterion yn ymwneud gydag archwiliad allanol 2015/16. Anfonais yr holl wybodaeth ymlaen i Lyn Cadwallader a Paul Egan, ac fe gawsant eu rhannu gyda Swyddfa Archwilio Cymru oedd yn gyfridol am gontractio dau gwmni i weithredu'r archwiliadau ar eu rhan. Fe wyddoch mai hon oedd blwyddyn gyntaf y contract newydd, ac fel y byddech yn disgwyl, mae Swyddfa Archwilio Cymru yn dymuno dysgu o'ch profiadau chi fel cynghorau ac o brofiad y cwmnïau archwilio eu hunain. Rydw i'n hyderus y bydd yr wybodaeth a ddarparwyd gennych o gymorth yn y broses o adolygu'r contract, ac y bydd unrhyw wersi a ddysgir o'r adolygiad yn debygol o ddylanwadu ar drefniadau archwiliadau'r dyfodol. Fel y gallwch ddychmygu, mae trafodaethau cytundebol o'r math yma yn gyfrinachol, ac ni fydd Swyddfa Archwilio Cymru yn gallu rhannu cynnwys y trafodaethau a gynhelir.

Serch hynny, addawodd swyddogion Swyddfa Archwilio Cymru y byddant yn gweithio ar ddatblygu dulliau o gefnogi'r Cynghorau Cymuned a thref gyda'r broses archwilio allanol at y dyfodol, yn cynnwys gwella cyfathrebu a rhannu gwybodaeth am natur a chynnwys yr archwiliadau. Arhoswn yn eiddgar am wybodaeth bellach ganddynt am hyn.

12 Antur Nantlle

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol gan Antur Nantlle

Rydym wedi bod yn llwyddiannus gyda chais grant cychwynnol i gronfa RCDF y llywodraeth ar gyfer prosiect yn adeilad y banc ym Mhenygroes ac rwyf wrthi yn paratoi y cais grant llawn.

Dwi'n atodi ychydig o fanylion yn y llythyr atodol.

Tybed a fyddai modd i chi roi llythyr o gefnogaeth i'r prosiect fel un o gynghorau cymuned yr ardal, os gwelwch yn dda?

Diolch ymlaen llaw am unrhyw gymorth.

13 Biniau Halen - Llythyr gan Steffan Jones, Adran Rheoli Gwastraff a Strydoedd, Cyngor Gwynedd

Derbyniwyd llythyr yn datgan y canlynol –

- CG yn gwneud yn siwr fod pob bin halen yn y Sir yn llawn eleni ar drothwy'r Gaeaf
- Wedi gwneud asasiad pellach a mwy manwl o union gostau cyflenwi biniau i sicirhau gostyngiad yn y costaiui Gynghorau Cymuned
- Mewn sefyllfa i gadarnhau y prisiau canlynol-

Llenwi pob bin yn y gymuned cyn y gaeaf £40 (i gychwyn Haf 2017)

Ail-lenwi bin ar gais y gymuned yn ystod y Gaeaf £60 y bin (1 Hydref i 30 Ebrill)

- Yn cadarnhau trefniadau ar gyfer ail-lenwi biniau halen yn ystod Gaeaf eleni sydd wedi ymuno a'r cynllun sef fod rhaid i unrhyw gais am lenwi biniau yn ystod y Gaeaf dderbyn sylw a chymeradwyaeth Clerc y Cyngor a'i drefnu gyda'r Swyddog cyswllt

14 Dinas Dinlle – Cynllun Talu ac Arddangos – Llythyr gan Barry Davies, Swyddog Morwrol

Copi o lythyr i O P Huws, Cadeirydd Grwp Cynghorau Lleol ynglyn a cynllun arfaethedig grwp Cynghorau Cymuned Lleol i gychwyn ar brosiect lleoli peiriannau talu ac arddangos yn Dinas Dinlle.

CG yn cefnogi'r cynllun ond fod cymlethdodau wedi codi ynglyn a phrydles y tir. Mae'r tir uwchben Llinell Llanw ym mherchnogaeth Y Goron ac wedi ei brydlesu gan CG. Er fod CG yn prydlesu'r tir maent wedi datgan pryder i'r Goron ynglyn a cost y brydles a hyn yng nghyd-destun toriadau difrifol yng nghyllidenbau'r Cyngor.

Mae'r Goron wedi cyflwyno opsiynau i CG i'w ystyried, ac sydd yn gorfod derbyn sylw gan Swyddogion ac o bosib Cabinet y Cyngor cyn penderfynu ar y ffordd ymlaen.

15 Ceisiadau Cynllunio

Ceisiadau Rhagfyr 2016 -

C16/1539/17/LL

Llwyn Piod, Lon Cefn Glyn, Y Groeslon LL54 7UF

Trosi allandy presennol i uned llety gwyliau ynghyd a dymchwel rhan o adeilad amaethyddol a gosod peiriant trin carffosiaeth preifat ar gyfer yr uned llety gwyliau yn unig.

C16/1436/17/LL

Cynlluniau Diwygiedig 24 Tachwedd 2016

3 Bryn Teg, Lon Pen Bonc, Y Groeslon LL54 7UA

Trosi adeilad llanol presennol I uned gwyliau hunan gynhaliol gyda estyniad unllawr a newidiadau strwythurol.

C16/1436/17/LL

Cynlluniau Diwygiedig 10 Rhagfyr 2016

3 Bryn Teg, Lon Pen Bonc, Y Groeslon LL54 7UA

Trosi adeilad llanol presennol I uned gwyliau hunan gynhaliol gyda estyniad unllawr a newidiadau strwythurol.

Materion Ariannol

16 Derbyniadau i 30 Tachwedd 2016

Manylion	Cyfanswm
Ffioedd Claddu	£295.00

17 Taliadau sydd angen eu hawdurdodi gan y Cyngor -

Manylion	Swm heb TAW	Cyfanswm y Taliad	Rhif Siec
Cyflog y Clerc - Rhagfyr 2016	£420.13	£420.13	Uniongyrchol
HMRC - Treth Incwm Rhagfyr 2016	£111.20	£111.20	Uniongyrchol
Lwfans Clerc – Rhagfyr 2016	£30.00	£30.00	Uniongyrchol
fGwynfor Williams – Gosod hysbysfyrdau yn mynwentydd	£275.00	£275.00	101703
Gwynfor Williams – Gwaith ar wal Bryn'rodyn	£450.00	£450.00	101704

18 Dyddiadau Cyfarfod Nesaf

Cyfarfod o'r Cyngor - Nos Lun, 16 Ionawr 2017

Pwyllgorau Cyllid – cyn cyfarfod 16 Ionawr i gwblhau cyllideb 2017-18

Pwyllgor Mynwentydd – dilyniant i cyfarfod y pwyllgor 5/12/16 i drafod diffyg defnydd y caeau

Pwyllgor Mynwentydd – trafod y fynwent newydd yn Bryn'rodyn

Panel Rheolau Sefydlog – dilyniant i'r cyfarfodydd a gynhaliwyd yn gynharach yn y flwyddyna gosod amserlen cadarn i gwblhau y gwaith erbyn 30 Ebrill 2017.

Panel Rheolau Sefydlog – adolygu a diweddarau polisiau yn arbennig polisi Deddf Rhyddhau Gwybodaeth. Polisi Gwyrdd, Polisi Iaith aynghyd a Sefydlu Panel Cwynion,

19 Materion i'w codi gan aelodau i gyfarfod nesaf o'r Cyngor llawn (16 Ionawr 2017) *diwedd*